**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 6 Tachwedd 2019 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | N J Davies | L S Gibbard |
| S M Jones | W G Lewis | L V Walton |

**Hefyd yn bresennol:**

**Y Cynghorydd**
I E Mann

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Hale, B J Rowlands a/ac G J Tanner

---

## 5 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 6 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

## 7 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) 2020-2021 - Ymgynghoriad.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad a oedd yn gwneud sylwadau ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020-2021.

Byddai sylwadau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn arwain at adroddiad y cyngor a fyddai'n cynnig ateb ffurfiol i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Trafododd y pwyllgor benderfyniadau perthnasol ac roeddent yn falch iawn o nodi'r penderfyniad mewn perthynas â chyhoeddi ad-daliadau costau gofal, lle'r oedd y panel wedi penderfynu y dylai awdurdodau perthnasol gyhoeddi'r cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn yn unig.

**Penderfynwyd** argymell yr adroddiad i'r cyngor ar 27 Tachwedd 2019 i'w gymeradwyo.

## 8 Ad-dalu Costau Gofal.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i hyrwyddo penderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas ag ad-dalu costau gofal ac annog pobl i dderbyn yr ad-daliad drwy gyflwyno'r adroddiad hwn i'r cyngor.

Cytunodd y pwyllgor y gall gynorthwyo'r cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig hynny â chyfrifoldebau gofalu i ad-dalu costau gofal, a allai yn eu tro helpu i gynyddu amrywiaeth mewn democratiaeth drwy annog pobl i sefyll fel ymgeiswyr wrth i'r rhwystr i'r cyfrifoldebau gofalu gael ei chwalu.

Dywedon nhw er mai ychydig iawn o Gynghorwyr/Aelodau Cyfetholedig oedd yn defnyddio'r ddarpariaeth; roedd gan Abertawe'r nifer uchaf o Gynghorwyr/Aelodau Cyfetholedig yng Nghymru a oedd wedi hawlio. Fodd bynnag, roedd yn ddiddorol nodi mai'r rheini â chyfrifoldebau gofal plant yn unig oedd wedi hawlio; mae angen i'r awdurdod hyrwyddo'r ddarpariaeth fel bod y rheini â chyfrifoldebau gofalu am ddibynyddion eraill fel yr henoed, yn cael eu hannog i hawlio.

Gofynnwyd i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddiwygio'r adroddiad rywfaint er mwyn tynnu sylw at rai enghreifftiau o'r hyn y gellid defnyddio Ad-daliadau Costau Gofal ar eu cyfer. Ymatebodd y byddai'n diwygio'r adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r cyngor a hefyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi llunio gwybodaeth ddefnyddiol yn dwyn y teitl 'Wyt ti wedi ystyried bod yn Gynghorydd yng Nghymru?' Gellir gweld hyn yn: https://www.youtube.com/watch?v=h3o0eKrX2Ds&feature=youtu.be

**Penderfynwyd:**

1) Y dylid nodi'r adroddiad;
2) Cyflwyno'r adroddiad i'r cyngor er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.33 pm

**Cadeirydd**